

Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Cuddiedig iawn i'r byd ...

Y mae yn nhrefniadaeth Teyrnas Nefoedd ddatganiadau sydd yn ymddangos yn wrthnysig, yn ffwlbril llwyr, i'r rhai nad ydynt yn derbyn nac yn ufuddhau i Arglwydd y Deyrnas.

Gwelsom yr wythnosau diwethaf mai disgyblion sy'n cael eu hanfon i wneud disgyblion yw eglwys Iesu Grist. Bydd croeso i'w neges pan fydd croeso i'r Un sy'n ein hanfon. Mae gwobr yn y gwaith. Ond mae yna elfen o wrthdaro rhwng dau fyd, rhwng dwy deyrnas, rhwng gwerthoedd a gweledigaeth am natur bywyd yn ei gyfanrwydd. Hyd heddiw fe bery'r Arglwydd i'n herio. Yn yr adnodau sydd ar ein cyfer yn y Llithiadur gwelwn dair enghraifft o hyn.

DARLLENIAD: Mathew 11: 16-24 – Does dim ennil.

Dyma yn gyntaf enghraifft o **bobl** na all yr Arglwydd byth eu bodloni na chwrdd â'i gofynion. Nid yw Teyrnas Dduw yn cyd-fynd gyda'i diffiniad o beth ddylai Teyrnas yr un Nefol fod. Os yw'n dod atom a chynnig gwledda llawen neu yn annog disgyblaeth grefyddol lem a lleddf ac asgetaidd... Does dim plesio. Mae dymuniad pobl yn fympwyl bron. Daeth Ioan Fedyddiwr a chyhoeddi neges o edifeirwch am fod Teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Daeth Iesu ac eistedd gyda "phechaduriaid". Ni chroesawyd yr un o'r ddau ohonynt gan y sefydliad crefyddol. Does dim ennil – am nad ydynt yn deall. Ond "eto profir fod doethineb Duw yn iawn."

Yn yr ail enghraifft mae Iesu'n ein harwain i feddwl am ymateb **cymdeithasau gwahanol**. Ac os oedd ei eiriau'n ysgwyd ei gynulleidfa ar y pryd, os deallwn ergyd ei eiriau, ni fyddwn yn synnu ei fod wedi digio'r arweinwyr crefyddol. Meddyliwch, meddai, am ddinasoedd mwyaf annuwiol yr hen fyd. Tyrus, Sidon a'i haml-dduwiau; Sodom a gosbydd am ei bechod. Eto beth am Bethsaida ffyniannus a Chapernaum boblog? Ni all eu hymffrost sefyll. Petai'r gwyrthiau a wnaed yn y dinasoedd paganaidd ag a wnaed yn ninasoedd Galilea, meddai Iesu, byddent wedi ei groesawu ac edifarhau. Ond gwrthod a wnaeth y dinasoedd llewyrchus. A daw ei eiriau caled i'n sobri dau fileniwm yn ddiweddarach. "Rwy'n dweud wrthyh y

caiff tir Sodom lai i'w ddiodeff yn nydd y farn na thi."

DARLLENIAD: Mathew 10: 25-30 – Mawl a gwahoddiad.

Daw gwerthoedd "gwrthnysig" y Deyrnas i'r amlwg yng ngweddi Iesu. Mae'r hyn sy'n symbylu mawl Iesu yn ein taro'n chwithig braidd. Y mae yn yr efengyl elfen guddiedig-sonnir am "guddio'r pethau hyn rhag y doethion a'r deallusion." ad 25. Nid doethineb dynol na gallu, na moes, na chrefyddda sy'n datgelu'r pethau dyfnaf y Deyrnas. Na, meddai Iesu, caiff y dirgelion cuddiedig eu "datguddio i rai bychain." Eu cuddio a'i datgelu, "oherwydd felly y rhyngodd dy fodd di." Ac y mae'r ddwy elfen yn peri bod Iesu'n "dy foliannu di o Dad, Arglwydd nef a daear..." Dyma yn wir drefniadaeth wahanol, disgwyliad gwahanol, gwrthnysig i'n golwg ni.

Ac eto oni chanodd Mair – "gwasgarodd y rhai balch eu calon; tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distad; llwythodd y newynog â rhoddion, ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw." (Luc 1: 53) Ar ddechrau ei weinidogaeth onid oedd Iesu ei hun wedi cyhoeddi, "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd..." Math 5:3

A phan aeth Paul i ddinas baganaidd ac anfoesol Corinth a chyhoeddi'r newyddion da am groes Iesu Grist gallai ddweud mai "pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r doeth..." Mae yna rywbeth ben-i-waered yn narpariaeth Duw.

Mae Iesu'n mynnu wedyn bod perthynas unigryw agos, yn perthyn iddo Ef a'r Tad. Mae'r adnabyddiaeth ddirgel, yn rhan o hunan-adnabyddiaeth y Duwdod. Ond trwy weithgarwch Duw ei hun cawn y fraint o "adnabod y Tad" trwy weithred y Mab sy'n "dewis ei ddatguddio ei hun iddynt." (ad 27)

Ac yna daw'r gwahoddiad mwyaf grasol-nid i'r mawrion, nid i feddylwyr mawr, nid i bobl sydd wedi byw bywydau neilltuol o dda fel y Phariseaid, nid bobl o gyraeddiadau neilltuol.

Daw gwahoddiad Iesu at "bawb sy'n flinedig ac yn llwythog". Nid gallu ond angen yw cymhwyster derbyn gras y nefoedd. Gras sy'n datgelu'n hangen. Gras Iesu Grist sy'n cyflawnir angen.

Daw'r gwahoddiad atom ynghyd ag addewid hefyd "rhoddaf fi orffwystira i chwi." Iesu a ni – cyfarfod hyfryd iawn, ni yn llwm, Iesu'n llawn, ni yn dlawd yn meddu dim, yntau'n rhoddi popeth i ni.

Daw ef atom gydag addfwynder gostyngedig. Daw a gorffwystira i'n heneidiau, ac y mae hyd yn oed yr iau o fod yn ddisgyblion iddo yn hawdd ei ddwyn ac yn ysgafn i'w dwyn o'i gymharu â "rhyddid" ein gwrthryfel.

Felly, gwelwn nad yw Iesu'n ein gwahoddi i fwy o grefyddda, fwy o ymdrech, fwy o "gyfraniad" tuag at ein hiachrawdriaeth. Gwahoddiad i heddwch yw'r gwahoddiad ato ef. Gwahoddiad i adnabod Duw yw'r gwahoddiad ato ef. Gwahoddiad i fywyd heddychlon, llawn, sy'n rhagflas o Shalom y Deyrnas yw canlyniad dod ato Ef.

GWEDDI

Trown atati Dduw pob cariad, Dduw, tirion a charedig, cyfiawn a maddeugar, gan sylweddoli y gallwn ddibynnu'n llwyr arnat ti. Rwy't yn croesawu atat y rhai sydd, fel ni, yn sylweddoli ein hangen amdanat. At y tlodion yn yr ysbryd y daethost gan gynnig iddynt Deyrnas Nefoedd. Maddau i ni ein hamheuron a'n anghrediniaeth y medret ti fod mor garedig tuag atom. Gofynnwn i ti am faddeuant am bob camwedd sydd ynom, am bob pechod. Yr ydym am droi oddi wrth yr hyn ydym, a chefnu ar yr hyn oeddem, er mwyn dy adnabod di fel yr wyt. Bendithia ni felly Arglwydd Dduw drwy dywalltiad grasol o'th Ysbryd Glan yn enw Iesu mawr. Amen.

Gadewch i ni gofio'n dawel am bob un yr ydym yn adnabod sy'n flinderog ac yn llwythog.

Pob un sy'n cario beichiau trymion... mewn llywodraeth, mewn llywodraeth leol... y rhai sy'n gofalu anwyliad... i'r rhai sy'n teimlo nad ydynt o werth yn y byd. Gweddiwn dros y rhai sydd mor galed na welant angen ac na theimlant awydd am dy ras...

Gweddiwn dros dy eglwys ar draws y byd. Gweddiwn am wledydd tlawd sy'n methu delio a'r Coronovius. Gweddiwn y cawn ninnau fod yn Samariaid o'r un fryd yn ein hymateb ninnau hefyd.

GWEDDI'R ARGLWYDD

EMYN 340: O llefara addfwyn Iesu.